
# Amgryptio o'r dechrau i'r diwedd a chadw'ch plentyn yn ddiogel ar-lein:

## Canllaw i rieni a gofalwyr

IWF Internet Watch Foundation

HM Government

Mae'n debygol bod eich plentyn yn treulio amser ar-lein, a gall hyn fod yn llawn pethau cadarnhaol, ond rhaid inni fod yn ymwybodol hefyd y gall troseddwyr rhywiol plant ddefnyddio llwyfannau ar-lein i dargedu plant.




Gallai cymaint ag 850,000 o bobl yn y Deyrnas Unedig fod yn fygythiad rhywiol i'ch plentyn, drwy gamdriniaeth naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb.[1] Mae adroddiadau diweddar gan yr Internet Watch Foundation (IWF) yn dangos mai'r grŵp oedran sy'n ymddangos mewn delweddau o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein ac sy'n tyfu gyflymaf yw plant 7 i 10 oed. Mae data'r IWF hefyd yn dangos bod nifer yr achosion o'r mathau mwyaf difrifol o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein wedi mwy na dyblu ers 2020.[2]

Mae gan gwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol gyfrifoldeb dros gadw'ch plant yn ddiogel wrth ddefnyddio'u llwyfannau drwy sicrhau bod negeseuon a chynnwys niweidiol, a phobl sy'n ceisio achosi niwed iddyn nhw, yn cael eu hadnabod a'u riportio i asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnig deddfwriaeth newydd i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol ar-lein, gan gynnwys dileu deunydd sy'n cynnwys cam-drin plant yn rhywiol a riportio'r deunydd hwnnw. Gallai cwmnïau wynebu camau gorfodi, fel dirwy, os na fyddan nhw'n cydymffurfio â'r rheolau. Ond gall rhieni helpu hefyd, gan mai un ffordd yn unig yw deddfwriaeth i helpu i gadw'ch plant yn ddiogel ar-lein.

### Beth yw amgryptio o'r dechrau i'r diwedd?

Ar hyn o bryd, mae cwmnïau technoleg yn defnyddio amgryptio yn gadarnhaol i gadw'ch trafodion banc a'ch pryniadau ar-lein yn ddiogel. Mae yna lawer o ddibenion eraill i amgryptio drwy'r cyfan o'n bywydau bob dydd, ond mae rhai o gwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol bellach yn bwriadu defnyddio, neu wrthi yn defnyddio, amgryptio o'r dechrau i'r diwedd (E2EE) mewn cymwysiadau negeseua preifat ac ar eu gwefannau.

**Mae E2EE yn dechnoleg y gall llwyfannau negeseua ei defnyddio sy'n golygu mai dim ond yr anfonwr a'r derbynnydd sy'n gweld negeseuon. Mae hyn eisoes yn bresennol ar lwyfannau fel WhatsApp a Signal.**

Yn ddiweddar, mae llawer o gwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol wedi cyhoeddi cynlluniau i ddechrau defnyddio E2EE ar eu gwasanaethau negeseua, gan gynnwys Facebook Messenger ac Instagram Direct.

Mae E2EE yn drech na dulliau rheoli sy'n helpu i gadw'ch plant yn ddiogel ac mae'n bosibl ei bod yn peri risg enfawr.

### Ydy E2EE yn peri perygl i'm plentyn i?

Mae E2EE yn cael ei gyflwyno gan gwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol i wella preifatrwydd i'w defnyddwyr, ond os bydd hyn yn cael ei wneud heb roi'r mesurau diogelu plant angenrheidiol ar waith, fe allai beri risg.

Ar hyn o bryd, mae cwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol yn sganio'u llwyfannau er mwyn canfod a riportio deunydd cam-drin plant yn rhywiol (fel delweddau, fideos, a sgyrsiau sy'n magu perthynas amhriodol) i asiantaethau gorfodi'r gyfraith, fel bod camdrinwyr yn cael eu harestio, a bod plant yn cael eu hamddiffyn.

**Os bydd E2EE yn cael ei gyflwyno'n eang heb y mesurau diogelu plant angenrheidiol, fydd cwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol ddim yn gallu dod o hyd i ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol a'i riportio yn yr un modd. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i gwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith ganfod camdrinwyr rhywiol plant sy'n ceisio trin dioddefwyr posibl, magu perthynas amhriodol â nhw a'u cam-drin. Yn y bôn, bydd yn golygu na fydd cwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu canfod delweddau a fideos o gam-drin plant yn rhywiol o fewn gwasanaethau negeseua wedi'u hamgryptio a'u hatal rhag cael eu lledaenu.**

Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth y mae cwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol yn ei rhoi i asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y Deyrnas Unedig yn cyfrannu at arestio dros 800 o bobl sy'n cael eu hamau o gam-drin plant yn rhywiol bob mis, gan arwain at amddiffyn bron 1,200 o blant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol.[3]



1 https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/who-we-are/publications/533-national-strategic-assessment-of-serious-and-organised-crime-2021/file

2 https://annualreport2022.iwf.org.uk/

3 Data'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

# Amgryptio o’r dechrau i’r diwedd a chadw’ch plentyn yn ddiogel ar-lein:
## Canllaw i rieni a gofalwyr

### Beth gall cwmnïau’r cyfryngau cymdeithasol ei wneud i gadw eu llwyfannau’n ddiogel?

Mae hi’n bosibl i gwmnïau’r cyfryngau cymdeithasol gadw eu llwyfannau’n ddiogel i blant a gwarchod preifatrwydd hefyd: ddylai hi ddim bod yn ddewis rhwng y ddau.

Mae technoleg yn bodoli a all ganfod deunydd cam-drin plant yn rhywiol hyd yn oed os yw E2EE wedi’i gyflwyno ar lwyfan negeseua neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol. Mae’r cwmnïau’n penderfynu peidio ag ystyried neu fuddsoddi yn y technolegau hyn. Mae’r penderfyniadau hyn yn creu effeithiau go iawn ar blant.

Mae canfod deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn debyg i ganfod feirysau ar eich cyfrifiadur. Mae meddalwedd atal feirysau yn cyflawni gwiriadau awtomatig ar eich dyfais i chwilio am feirysau neu ddeunydd niweidiol er mwyn cadw’n gwybodaeth bersonol yn ddiogel. Bydd y feddalwedd naill ai’n eich hysbysu bod y deunydd yn niweidiol neu’n ei dynnu i chi.


Mae technoleg yn bodoli a fyddai’n gweithio mewn ffordd debyg i adnabod delweddau a fideos o gam-drin plant yn rhywiol, ac yn cynnal preifatrwydd yr un pryd.

Mae gan gwmnïau’r cyfryngau cymdeithasol gyfrifoldeb i weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, rhanddeiliaid ac elusennau a buddsoddi yn y technolegau hyn i adeiladu ateb ar gyfer eu llwyfannau sy’n cadw plant yn ddiogel.

### Beth galla i ei wneud i gadw fy mhlentyn yn ddiogel ar-lein?

Dyw magu perthynas amhriodol ar-lein neu dactegau sy’n cael eu defnyddio gan gamdrinwyr rhywiol plant ddim bob amser yn hawdd eu gweld. Mae’n bwysig siarad â phlant am yr ymddygiadau hyn a sicrhau eu bod yn gwybod bod ganddyn nhw le diogel i droi ato os ydyn nhw’n bryderus neu’n cael eu hunain yn agored i berthynas amhriodol neu gam-drin rhywiol.

O roi E2EE ar waith, bydd y rhan fwyaf o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yn mynd heb ei ganfod. Fydd neb yn gallu gweld y rhai sy’n ceisio targedu plant, magu perthynas amhriodol â nhw a’u cam-drin yn rhywiol ar-lein.



Efallai na fydd plant yn gwybod eu bod yn cael eu cam-drin a’u hecsbloetio’n rhywiol gan fod camdrinwyr rhywiol plant yn defnyddio ystod o dechnegau i gam-drin a thrin plant, fel esgus bod yn blant ar-lein.

Cyfrifoldeb cwmnïau’r cyfryngau cymdeithasol yw sicrhau bod eu mannau ar-lein yn ddiogel, ond mae yna gamau y gall rhieni a gofalwyr eu cymryd i gadw eu plant mor ddiogel â phosibl ar-lein.

Mae’r acronym Saesneg TALK yn rhannu’r camau hyn yn bedwar prif faes. Yr allwedd yw dechrau nawr. P’un a yw’ch plentyn wrthi’n defnyddio’r rhyngrwyd yn annibynnol ers tro, ynteu ar fin cael ei ffôn symudol cyntaf, dyw hi ddim yn rhy hwyr i gymryd y camau hyn.

**T** — **Siaradwch â’ch plentyn am gam-drin rhywiol ar-lein. Dechreuwch y sgwrs a gwrandewch ar eu pryderon.**

**A** — **Cytunwch ar reolau sylfaenol ynghylch y ffordd rydych chi’n defnyddio technoleg fel teulu.**

**L** — **Dysgwch am y llwyfannau a’r apiau mae’ch plentyn yn eu caru. Cymerwch ddiddordeb yn eu bywyd ar-lein.**

**K** — **Mynnwch wybod sut i ddefnyddio offer, apiau a gosodiadau a all helpu i gadw’ch plentyn yn ddiogel ar-lein.**

*I gael cymorth ynglŷn â sgyrsiau fel hyn, ewch i talk.iwf.org.uk*

### Cymorth ychwanegol i chi a’ch plentyn

Os ydych chi’n credu bod plentyn mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch 999.

Os oes gennych unrhyw bryderon am ddiogelwch neu les plentyn, cysylltwch â Llinell Gymorth yr NSPCC ar 0808 800 5000 neu anfonwch neges ebost at help@nspcc.org.uk.

Os ydych chi’n poeni am blentyn neu berson ifanc, cewch weld sut i gysylltu â’u tîm gofal cymdeithasol plant lleol yn www.gov.uk/report-child-abuse-to-local-council.

Os ydych chi’n poeni am gam-drin plant dan 18 oed yn rhywiol neu am fagu perthnasoedd amhriodol ar-lein, gallwch roi gwybod i Ganolfan Diogelwch CEOP yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn www.ceop.police.uk/safety-centre.

I gael rhagor o gyngor mae nifer o sefydliadau a all helpu. Ewch i wefan yr Internet Watch Foundation i gael manylion: talk.iwf.org.uk/additional-help.